# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg
## Awst 2019 – Gorffennaf 2020

## Cyflwyniad

Ers 1 Ebrill 2018, mae Prifysgolion yng Nghymru yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 6) 2017 a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Safonau yn egluro sut y mae disgwyl i'r Brifysgol ddarparu gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhaid i brifysgolion gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y cyfnod o 1 Awst 2019 hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol y sefydliad, sef 31 Gorffennaf 2020.

Bu'r gwaith o baratoi'r adroddiad hwn, yn ogystal â chynghori staff ac adrannau'r Brifysgol ar fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg, o dan ofal Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ac arweiniad Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol.

Yn unol â gofynion y Safonau, mae'r adroddiad blynyddol yn nodi'r modd i ni gydymffurfio â'r Safonau Iaith, ac yn cynnwys y wybodaeth isod.

**Cydymffurfiaeth â'r Safonau**
Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau polisi a safonau gweithredu yn ystod y flwyddyn.

**Sgiliau Cymraeg y Gweithlu**
Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw.

**Hyfforddiant**
Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn; ac os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd fersiwn Gymraeg y cwrs.

**Swyddi**
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle gofynnwyd —

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
- nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol,

**Cwynion**
Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau polisi a safonau gweithredu.

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan Gyngor y Brifysgol i'w gyhoeddi ar ein gwefan www.aber.ac.uk/cy/cgg

## Datblygiadau 2019-20

Yn ystod y cyfnod dan sylw, er gwaethaf heriau yn sgil COVID 19 o fis Mawrth 2020 ymlaen, mae Prifysgol Aberystwyth wedi parhau yn ei hymroddiad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac i annog ei gweithlu i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

### Is-gynllun y Gymraeg a'i Diwylliant 2019-2023

Dyma flwyddyn gyntaf gweithredu Is-gynllun y Gymraeg a'i Diwylliant 2019-2023 a gymeradwywyd ym Mehefin 2019. Mae'r Is-gynllun yn crynhoi'r elfennau amlycaf sy'n rhoi cyfeiriad i weithgareddau'r Brifysgol mewn perthynas â'r Gymraeg (Safonau'r Gymraeg, y Cynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg, Cynllun Cyfannol Strategol y Gymraeg, a'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog) er mwyn cyflwyno cynllun cyfansawdd i alluogi'r Brifysgol i gyflawni ei chenhadaeth ddwyieithog.

Pwrpas yr Is-gynllun yw amlygu prif weithgareddau sy'n gwneud Prifysgol Aberystwyth yn sefydliad dwyieithog uchelgeisiol sy'n galluogi ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2019-20,

- Datblygodd y Brifysgol gynlluniau cyffroes i gyflwyno meysydd astudiaeth newydd mewn milfeddygaeth a nyrsio, ac mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn agwedd hanfodol ar y cynlluniau newydd.
- Sefydlwyd Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg newydd (2019-20) a gadeirir gan y Dirprwy Is Ganghellor gyda gofal am y Gymraeg. Mae'r pwyllgor yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd ac yn cyfarfod o leiaf dair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd.

### Neuadd Pantycelyn

Yn ystod 2019-20, bu'r gwaith o adnewyddu Neuadd Pantycelyn yn mynd rhagddo dan ofal y cwmni adeiladu.

Mae'r Neuadd yn cynnig darpariaeth wedi arlwyo ar gyfer 200 o fyfyrwyr gydag ystafelloedd gwely cyfoes, *ensuite* yn ogystal â gofodau cymdeithasol rhagorol er mwyn cynnig canolbwynt heb ei ail ar gyfer cymuned myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol.

Yn ystod y cyfnod hwn parhawyd i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd Prosiect ac i ymgysylltu'n gyson gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr gan adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Weithrediaeth a phrif bwyllgorau'r Brifysgol ac i gyfathrebu yn ehangach na hynny.

Yn naturiol yng ngoleuni'r pandemig, bu cynllunio gofalus tu hwnt i alluogi i'r gwaith adeiladu barhau ac i gynllunio ar gyfer yr amodau mwyaf diogel posib wrth baratoi i ail-agor y Neuadd ym mis Medi 2020.

### Addewidion Aber

Ym mis Gorffennaf 2020, gwelwyd penllanw cyfnod o drafod a chynllunio wrth i'r Brifysgol gyhoeddi Addewidion Aber ar eu newydd wedd. Mae'r Addewidion yn ffrwyth llafur cydweithio'n agos gydag Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA), a'n bwriad wrth ail lansio Addewidion Aber oedd pwysleisio fod dewis dod i Brifysgol Aberystwyth yn medru cynnig profiad Cymraeg cyflawn.

Mae'r 8 Addewid yn cwmpasu bywyd academaidd a bywyd cymdeithasol y myfyriwr, ynghyd a chynnig sgiliau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer gyrfa yn y dyfodol. Crëwyd fideo byr yn crynhoi'r holl gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg - boed hynny mewn amgylchiadau ffurfiol neu anffurfiol. Rhannwyd y fideo trwy ein rhwydweithiau cymdeithasol yn gyson er mwyn cyrraedd cynulleidfa eang. Roedd ail lansio'r addewidion hefyd yn cyd-daro'n dda gydag ail agor Pantycelyn fel neuadd breswyl i fyfyrwyr sy'n siaradwyr neu'n ddysgwyr Cymraeg.

1. **Llety clyd**: lle i fyw yn Gymraeg
2. **Arian yn dy boced:** am ddilyn rhwng 5 a 40 credyd yn Gymraeg
3. **Rhoi dy iaith ar waith:** cefnogaeth i ddysgu a gwella dy Gymraeg
4. **Aelodaeth o UMCA am ddim:** agor y drws ar gymdeithas Gymraeg
5. **Help!** Tiwtor academaidd i dy helpu trwy gyfrwng y Gymraeg
6. **Gofod i flaguro:** gofod i gymdeithasau cyfrwng Cymraeg
7. **Profiad Gwaith**… gyda chwmnïau Cymraeg
8. **Amryw-iaith:** cyrsiau o bob math ar draws y Brifysgol- yn Gymraeg

Ein gobaith yw y bydd myfyrwyr yn manteisio ar y cyfleoedd ac yn byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir canfod y fideo a rhagor o fanylion ar ein gwefan

### Cyrsiau Dysgu Cymraeg

Yn ystod y Cyfnod Clo, gyda chymorth a chefnogaeth tîm Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr, trefnwyd Cyrsiau Dysgu Cymraeg Blasu a Chwrs Gloywi ychwanegol ar gyfer staff dros Zoom . Cafwyd ymateb cadarnhaol gyda 34 yn cofrestru ar gyfer y cyrsiau. Yn yr un modd, trosglwyddwyd holl wersi Dysgu Cymraeg ar Zoom er mwyn sicrhau fod staff yn gallu parhau i ddysgu'r Gymraeg tra'n gweithio o adref neu ar y cynllun Ffyrlo.

**Gŵyl ein Llais yn y Byd 2019**

Ym mis Tachwedd 2019 cynhaliwyd Gŵyl ein Llais yn y Byd yn yr Hen Goleg, ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Roedd y digwyddiad yma'n benllanw rhaglen Llywodraeth Cymru yn nodi blwyddyn ryngwladol ieithoedd brodorol UNESCO yng Nghymru, a'n cynnwys ffigurau adnabyddus o feysydd diwylliant, technoleg, chwaraeon, busnes, dysgu a hybu iaith, a rhaglen gyfoethog o sesiynau trafod, cyflwyniadau, ac adloniant byw.

Mynychodd dros **170** y digwyddiad dros ddeuddydd, gyda **54** o gyfranwyr unigol yn cyflwyno rhaglen eang ac uchelgeisiol yn cwmpasu ystod o ddatblygiadau Cynllunio Ieithyddol a hybu iaith. Cafwyd cynulleidfa o 1439 yn ogystal i'r ffrwd byw o'r sesiynau a gynhaliwyd yn yr Hen Neuadd.

**Gwobrau Gŵyl Dewi Aber**

Yn flynyddol mae Prifysgol Aberystwyth yn dathlu Gwobrau Gŵyl Dewi Aber er mwyn cydnabod a gwobrwyo unigolion am eu hymdrechion dros yr iaith Gymraeg - boed yn fyfyrwyr neu'n aelodau o staff.

Oherwydd COVID-19 bu'n rhaid gohirio digwyddiad Gwobrau Gŵyl Dewi Aber ym mis Mawrth 2020. Bydd fideo i ddathlu enillwyr Gwobrau Gŵyl Dewi Aber yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod Shwmae Su'mae 15 Hydref 2020.

## Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

**Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg**
Mae Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn gyfrifol am gynorthwyo adrannau'r Brifysgol i weithredu Safonau'r Gymraeg, ac yn cynnig cyngor i staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y Brifysgol.

Mae gwaith y Ganolfan yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, cefnogi adrannau academaidd i ddatblygu prosiectau drwy'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu, a chydlynu gwasanaeth cefnogi cynhwysfawr i staff a myfyrwyr drwy'r Gymraeg.

Cydweithiwyd yn agos gyda thîm cyfathrebu'r Brifysgol i drefnu hyrwyddo penodol yn ystod y flwyddyn ar gyfer cyrsiau, digwyddiadau ac adnoddau/gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg. Trefnwyd nifer o gyfarfodydd gydag uwch reolwyr i drafod cyfleoedd posib ar gyfer staff. Cynhaliwyd cyflwyniadau am y cyfleoedd ar gyfer staff a myfyrwyr yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Anogwyd myfyrwyr a staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod y cyfnod. Hyrwyddwyd dathliad **Diwrnod Shwmae Su'mae** ar 14 Hydref 2019 ar y Campws. Hybwyd diwrnod 'Mae gen i hawl' ar 6 Rhagfyr 2019 ar y cyd gyda staff y Coleg Cymraeg.

Cynyddodd Canolfan y Celfyddydau'r ddarpariaeth Cymraeg yn ystod y flwyddyn, gan hybu digwyddiadau Cenedlaethol yn cynnwys **Dydd Miwsig Cymru**. Gwelwyd rhai adrannau hefyd yn trefnu paned a sgwrs reolaidd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y

gweithle.  Yn ogystal, bu aelod o staff yn cydlynu cinio Cymraeg rheolaidd yn ystod y flwyddyn gan annog dysgwyr a siaradwyr Cymraeg i sgwrsio dros ginio.

**Cyngor a Chanllawiau**

Mae canllawiau ar gydymffurfio â'r Safonau Iaith ynghyd â pholisïau a strategaethau'r Brifysgol o ran hyrwyddo'r Gymraeg ar gael ar dudalen gwe Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg www.aber.ac.uk/cy/cgg/

Mae'r canllawiau isod wedi'u cyhoeddi er mwyn cynorthwyo staff y Brifysgol i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Ateb y Ffôn
Gohebiaeth
Llofnod E-bost
Cyfarfodydd - myfyrwyr a'r cyhoedd
Cadeirio Cyfarfod Dwyieithog
Digwyddiadau / Darlithoedd Cyhoeddus a Seremonïau Graddio / Gwobrwyo
Cyfarwyddyd ynglŷn â gwe-dudalennau PA a'r Gymraeg
Gwneud cais am gontractau a grantiau
Canllaw Polisïau
Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith Gymraeg
Cyfryngau Cymdeithasol
Contractau a Thendro
Rhestr Wirio ar gyfer Darparwyr Trydydd Parti
Grantiau a Chymorth Ariannol
Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

**Trefniadau Cydymffurfio**

Cyhoeddodd y Brifysgol ddogfen sy'n egluro'r camau yr ydym wedi cymryd i gydymffurfio â'r holl safonau - Trefniadau Goruchwylio'r Safonau Iaith

**Grŵp Gweithredol y Gymraeg**

Mae Grŵp Gweithredol y Gymraeg yn arwain ac yn monitro Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol ac yn adrodd am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith ar draws y Brifysgol gan ddatblygu hyfforddiant a chyngor addas.

Mae Gweithrediaeth y Brifysgol yn derbyn adroddiadau cyson fel sy'n briodol ar weithgaredd y Grŵp. Bydd Dirprwy Is-Ganghellor â gofal am y ddarpariaeth academaidd Cymraeg yn diweddaru'r Grŵp am y gwaith a wneir gan y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

**Safonau Polisi**

Er mwyn ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg lluniwyd ffurflen Asesiad Ardrawiad Iaith. Mae copi o'r ffurflen ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ac ar dudalen cydraddoldeb gwefan Adnoddau Dynol. Lluniwyd ganllaw ar gyfer asesu

penderfyniadau polisi ar y Gymraeg ac mae'r canllaw yn cynnwys cymorth i ddiffinio penderfyniad polisi, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sut i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Datblygu neu Addasu darpariaeth Academaidd**

Sefydlwyd Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg newydd (2019-20) a gadeirir gan y Dirprwy Is Ganghellor gyda gofal am y ddarpariaeth academaidd Cymraeg ac sy'n cynnwys yr Is-Ddeoniaid cysylltiol gyda gofal am y Gymraeg, Swyddog Cangen PA o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, aelod o'r tîm marchnata, aelod o dîm Gwasanaethau Gwybodaeth, y Gofrestrfa Academaidd, a llywydd UMCA. Mae'r pwyllgor yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd ac yn cyfarfod o leiaf dair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd.

Yn unol â gofynion Safon 104, bydd adrannau'n ystyried yr effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg gydag unrhyw gynigion i newid y ddarpariaeth academaidd. Yn ystod 2019-20 cyflwynwyd adroddiadau adrannol a'u hystyried gan y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg.

**Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg**

Dyma flwyddyn gyntaf gweithredu ein Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg a gyhoeddwyd llynedd (Mehefin 2019), ac sy'n adeiladu ar ymrwymiadau ein Cynllun Strategol 2018-2023 '*I'r Ganrif a Hanner Nesaf*' a thraddodiad y Brifysgol o gefnogi dwyieithrwydd yn y gweithle. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r cyfraniad sydd gan y Brifysgol mewn perthynas â nod Llywodraeth Cymru o greu Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

Targedau y Polisi yw

- **90%** o'r staff sy'n rhugl yn y Gymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gwaith (B2-C2).
- **50%** o'r staff sy'n dysgu'r iaith neu nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl (A1-B1) yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gwaith.
- **50%** o weithlu Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol yn medru'r Gymraeg (ar Lefel B1-C2) erbyn 2029.

Yng nghyfarfod diwethaf Grŵp Gweithredol y Gymraeg adroddwyd fod gan **35%** o weithlu Gwasanaethau Proffesiynol sgiliau Cymraeg ar Lefel B1-C2 (data yn gyfredol ar **15 Mehefin 2020**).

Cynhelir arolygon defnydd iaith staff bob dwy flynedd,  a bwriedir cynnal yr arolwg nesaf ym mis **Mai 2021**.

## Swyddi

Hysbysebwyd **587** o swyddi gan Brifysgol Aberystwyth rhwng 1 Awst 2019 a 31 Gorffennaf 2020 (ac eithrio swyddi *AberYmlaen* a *GwaithAber*).

| Categori | Nifer |
|---|---|
| **Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.**<br>*Swyddi â sgiliau Cymraeg (llafar) yn hanfodol ar lefel A1 neu uwch.* | **172** |
| **Swyddi ag angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd.**<br>*Swyddi Cymraeg hanfodol (llafar) ar lefel A1 neu uwch, lle penodwyd ymgeisydd gydag ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg i'r lefel angenrheidiol (os nad oedd yr ymgeisydd yn medru'r Gymraeg ar y lefel hynny yn barod).* | **33** |
| **Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.**<br>*Swyddi â'r Gymraeg (llafar) yn ddymunol ar lefel A1 neu uwch (os nad oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol)* | **272** |
| **Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.**<br>*Swyddi heb ofyniad ieithyddol ond â'r gallu i ddeall natur ddwyieithog y Brifysgol ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau sydd mewn lle i gefnogi gweithio yn ddwyieithog, yn hanfodol.* | **143** |

Asesir pob swydd ar gyfer gofynion iaith drwy system *E-Recruiter* a chaiff pob un asesiad ei wirio gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn unol â Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Brifysgol a gofynion Safon 145.

Hysbysebir pob swydd yn ddwyieithog ac mae pob swydd yn nodi un ai bod lefel penodol o'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol, neu fe ofynnir am ymwybyddiaeth o natur ddwyieithog y Brifysgol pan na fydd y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ofyniad.

## Cwynion

Derbyniwyd **1** cwyn mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

| Dosbarth o Safonau | Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol |
|---|---|
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | **1** |
| Safonau Llunio Polisi | 0 |
| Safonau Gweithredu | 0 |

Datryswyd y gwyn hon ar gam cyntaf (cam anffurfiol) ein gweithdrefn gwyno.

Cedwir cofnod a manylion cwynion a dderbynnir gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a darperir adroddiad cryno yn gyson i'r Grŵp Gweithredol ac i Gyngor y Brifysgol.

Ceir fanylion ynglŷn â gweithdrefn gwyno'r Brifysgol o ran Safonau'r Gymraeg ar ein gwefan

## Hyfforddiant

Yn unol â safon **135** mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn y meysydd canlynol os cânt eu darparu'n Saesneg

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- Ymsefydlu;
- Delio â'r cyhoedd; ac
- Iechyd a diogelwch.

| **Teitl y Cwrs** | **Nifer y Cyrsiau** | **Nifer a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg** | **Nifer a fynychodd y sesiwn yn Saesneg** | **Canran o'r staff a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg** |
|---|---|---|---|---|
| **Recriwtio a Chyfweld** | | | | |
| **5 Awst 2019** : Arferion Recriwtio a Chyflogaeth Foesegol | 1 | 0 | 8 | 0% |
| | | | | |
| **Iechyd a Diogelwch** | | | | |
| Asesu Risg | 5 | 0 | 92 | 0% |
| Codi a Chario | 6 | 0 | 76 | 0% |
| Swyddog Tân | 2 | 0 | 25 | 0% |
| Cyflwyniad i COSH | 2 | 0 | 24 | 0% |
| Defnyddio ysgol yn ddiogel | 1 | 0 | 1 | 0% |
| Cwrs Gweithio'n Ddiogel IOSH | 2 | 0 | 18 | 0% |
| Cwrs Rheoli'n Ddiogel IOSH | 1 | 0 | 6 | 0% |

Yn ystod y cyfnod dan sylw, ni ddarparwyd hyfforddiant yn Gymraeg neu'n Saesneg yn y meysydd isod.

- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- Ymsefydlu;
- Delio â'r cyhoedd

Mae nifer y cyrsiau hyfforddiant a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg gan yr adran

Adnoddau Dynol yn is na llynedd. Mae hyn o ganlyniad i newidiadau adrannol a COVID-19.

Tu hwnt i'r meysydd uchod, mae staff hefyd yn cwblhau'r cyrsiau hyfforddiant canlynol sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

| Cwrs | Nifer a gwblhaodd yr hyfforddiant yn Gymraeg |
|---|---|
| Diogelu Data (GDPR) | 15 |
| Diogelu Gwybodaeth | 23 |
| Rhagfarn Ddiarwybod | 13 |
| Amrywiaeth yn y Gweithle | 2 |
| Ymwybyddiaeth Dyletswydd Prevent | 7 |

## Hyfforddiant Dysgu Cymraeg

**Cyrsiau Cymraeg Gwaith 2019-2020**
Yn dilyn derbyn cyllid ar gyfer darparu Cyrsiau Cymraeg Gwaith, hysbysebwyd cyrsiau ymhlith staff ar gyfer pedwar dosbarth Cymraeg. Gwahoddwyd staff y Brifysgol sy'n siarad Cymraeg i fod yn fentor Cymraeg i'r staff sy'n mynychu'r Cyrsiau Cymraeg Gwaith. Anogwyd pob mentor i gyfarfod yn rheolaidd gyda'r dysgwr er mwyn sgwrsio ac ennyn mwy o hyder yn y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

| Cwrs | Nifer staff wedi cofrestru |
|---|---|
| Mynediad | 9 |
| Canolradd | 12 |
| Uwch | 9 |
| Hyfedredd | 7 |
| **Cyfanswm** | **37** |

Yr oedd **16** aelod o staff o'r dosbarthiadau uchod hefyd wedi cofrestru ar gyfer sefyll arholiad yn y Gymraeg. Yn anffodus gohiriwyd yr arholiadau oherwydd Covid-19.

Trefnwyd **Cwrs Blasu 8 wythnos** (Rhagfyr – Chwefror) ar gyfer 8 aelod o staff y Ganolfan Chwaraeon gyda'r bwriad o gynyddu hyder y tîm yno i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyhoedd.

Mynychodd **44** o staff gyrsiau cymunedol Dysgu Cymraeg yn ystod y cyfnod.

| Lefel y Cwrs Cymunedol | Nifer |
|---|---|
| Mynediad (1 a 2) | 23 |
| Sylfaen | 7 |
| Canolradd | 4 |
| Uwch | 3 |

| | |
|---|---|
| Hyfedredd | 1 |
| Gloywi | 2 |
| Cwrs Haf 2019 | 2 |
| Cwrs Cymraeg Proffesiynol | 1 |
| Cwrs Calan | 1 |
| **Cyfanswm** | **44** |

Yn ogystal, yn ystod y misoedd ers y Clo ym mis Mawrth pan fu yn rhaid i nifer o staff weithio o adref neu fynd ar y cynllun Ffyrlo. Gyda chymorth a chefnogaeth tîm Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr, trefnwyd Cyrsiau Blasu 10 wythnos a Chwrs Gloywi 6 wythnos dysgu o hirbell. Gweler y niferoedd a gofrestrwyd isod. Cynhaliwyd y cyrsiau hyd ddiwedd Gorffennaf.

| **Enw'r Cwrs** | **Nifer** |
|---|---|
| Cwrs Blasu Cymraeg Gwaith Cyffredinol 10 wythnos | 13 |
| Cwrs Blasu Cymraeg Gwaith Cyffredinol 10 wythnos | 12 |
| Cwrs Blasu Cymraeg Gwaith – Gwasanaethau Croeso 10 wythnos | 4 |
| Cwrs Cymraeg Gwaith Gloywi 6 wythnos | 4 |
| **Cyfanswm** | **34** |

Cofrestrodd **105** o unigolion ar gyfer Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2019-20 gyda thua 90% yn fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig, ynghyd ag aelodau staff y Brifysgol. Roedd **10** yn aelod o staff y Brifysgol. Gohiriwyd yr arholiadau ysgrifenedig oherwydd COVID 19.

Gweler nifer y staff a gofrestrodd ar gyfer Cyrsiau Dysgu Cymraeg Gwaith byr ar-lein isod.

**Cyrsiau Byr Dysgu Cymraeg ar-lein – adroddiad data hyd 31 Gorffennaf 2020**

| **Cwrs Dysgu Cymraeg Byr ar-lein** | **Nifer o staff wedi cofrestru** | **Wedi cwblhau** |
|---|---|---|
| Croeso (Rhan 1) | 127 | 29 |
| Croeso (Rhan 2) | 30 | 13 |
| Croeso Nol (Rhan 1) | 53 | 14 |
| Croeso Nol (Rhan 2) | 9 | 2 |
| Gwella eich Cymraeg (Rhan 1) | 11 | |
| Gwella eich Cymraeg (Rhan 2) | 1 | |
| Gwybodaeth am y Gymraeg | 2 | 1 |
| Sector Gwasanaethau Brys | 1 | |
| Sector Manwerthu (Rhan 1) | 3 | |
| Sector Twristiaeth (Rhan 1) | 1 | |

## Sgiliau Cymraeg y Gweithlu

Ar **31 Gorffennaf 2020** dadansoddwyd gwybodaeth am sgiliau iaith yr holl staff sydd â'u manylion wedi eu diweddaru. Defnyddir Fframwaith cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer y lefelau.

| | **Nifer y staff â Sgiliau Cymraeg (31 Gorffennaf 2020)** | |
|---|---|---|
| **Lefelau** | **Llafar** | **Ysgrifenedig** |
| A0 | 673 | 799 |
| A1 | 287 | 234 |
| A2 | 60 | 59 |
| B1 | 179 | 136 |
| B2 | 204 | 194 |
| C1 | 69 | 58 |
| C2 | 165 | 145 |
| Dim Data | 275 | 287 |
| **Cyfanswm** | **1912** | **1912** |

## Manylion Cyswllt

**Dylan Hughes**
Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

**Lowri Angharad Jones**
Swyddog Datblygu Gwasanaethau Cymraeg

**Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg**
Prifysgol Aberystwyth,
Hugh Owen, Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3DY
www.aber.ac.uk/cy/cgg
CanolfanGymraeg@aber.ac.uk

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY